

COFNODION DRAFFT CYFARFOD RHITHIOL Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH, 8 RHAGFYR 2020 AM 7 PM

PRESENNOL: Y Maer (Cynghorydd Wilkinson) ynghyd â'r Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Clarke, Collins, Drake, Hampton, Hawkins, N Hodges, S Hodges, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Payne, Perkes, Richardson, Wiliam, a Wright.

HEFYD YN BRESENNOL: Emily Forbes Prif Swyddog (Clerc y Dref)
Mark Sims Dirprwy Brif Swyddog
Robyn Walsh Swyddog Ymgysylltu
Cymunedol
Ellyn Wright - Overserved (Barry Nub News)

Gofynnodd y Mawr i'r Aelodau gynnal munud o dawelwch er cof am y cyn faer Theo Stenstrom a fu farw'n ddiweddar a hefyd i gofnodi diwrnod olaf yr Wythnos Ymwybyddiaeth Galar Genedlaethol.

800. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Charles, Hooper a Rowlands.

801. **DERBYN DATGANIADAU O FUDDIANNAU O DAN GOD YMDDYGIAD Y CYNGOR GAN NODI GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) 2008 A GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 A FABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR AR 16 MAI 2017 (TUDALEN 16 RHAN 3)**

Nododd y Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Collins, Drake, Hampton, N Hodges, Johnson, Nugent-Finn, Perkes, Rowlands, Wiliam, Wilkinson a Wright eu bod yn Gynghorwyr ar Gyngor Bro Morgannwg ac y cawsant oddefeb i siarad ac i bleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ail-Iunio Gwasanaethau.

Nododd y Cynghorydd Johnson y cafodd oddefeb i siarad a phleidleisio ar faterion i'r dyfodol yn ymwneud â Neuadd Pioneer a'r Neuadd Gymunedol arfaethedig yn Nynesfa'r Fynwent, gan ei fod yn Ymddiriedolydd Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra.

802. **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Fe nodwyd fod y Ddeddf hon yn cyflwyno'r angen i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau **bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.**

Er mwyn gweithredu felly, rhaid i gorff cyhoeddus roi ystyriaeth i'r materion canlynol:

- (a) pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig felly pan all pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith hirdymor andwyol;
- (b) yr angen i weithredu'n integredig, trwy ystyried sut—
 - i. all amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
 - ii. all amcanion llesiant y corff effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig felly pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond pan allent fod yn andwyol i gyflawni un arall;
- (c) pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn y rhan honno o Gymru y mae'r corff yn cyflawni cyfrifoldebau ynddi;
- (d) sut allai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion;
- (e) sut all defnyddio adnoddau i rwystro problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff, neu amcanion corff arall.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

803. **CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 28 MEDI 2020**

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo a llofnodi'n gywir gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2020.

804. **DERBYN CYFATHREBIADAU ODDI WRTH Y MAER**

Dywedodd y Maer y bu 2020 yn flwyddyn anarferol iawn. Dywedodd wrth yr aelodau ei bod yn ddiweddar wedi agor yn swyddogol adran newydd yn y Goodsheds a'i bod hefyd wedi recordio neges Nadolig gyda Bro Radio a ddarlledwyd ar Orsaf Radio'r Nadolig a thrwy uchelseinyddion ar draws y dref. Dywedodd hefyd y bu mewn digwyddiad bychan i osod torchau ar gyfer Sul y Coffa.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cyfathrebiadau oddi wrth y Maer.

805. **YSTYRIED CWESTIYNAU ODDI WRTH GYNGHORWYR (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (E))**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

806. **YSTYRIED CWESTIYNAU/SYLWADAU ODDI WRTH AELODAU'R CYHOEDD (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (F))**

Derbyniodd yr Aelodau gais oddi wrth Amgueddfa'r Barri ynghylch y milwyr metel tawel a brynwyd i goffáu 100 mlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf; gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ellid arddangos un ohonynt yn yr Amgueddfa.

Cytunodd yr Aelodau y gallai'r Milwr Tawel a leolwyd y tu allan i gyn swyddfeydd y Cyngor Tref gael ei fenthyca dros dro i Amgueddfa'r Barri, ar yr amod fod ganddynt adeilad addas i'w arddangos ynddo.

PENDERFYNWYD: Y dylai un o'r ddau Filwr Tawel a brynwyd gan Gyngor Tref Y Barri ei fenthyca dros dro i Amgueddfa'r Barri ar yr amod ei fod yn cael ei ddychwelyd pe na bai gan Amgueddfa'r Barri adeiladau addas ar ei gyfer mwyach.

807. **YSTYRIED CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion.

808. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD AR 30 MEDI 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020.

809. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PERSONÉL A GYNHALIWYD AR 12 HYDREF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020.

810. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFODYDD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY A GYNHALIWYD AR 19 HYDREF, 16 TACHWEDD AC 1 RHAGFYR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 16 Tachwedd ac 1 Rhagfyr 2020.

811. DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR NEUADDAU, MYNWENTYDD A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A GYNHALIWYD AR 19 HYDREF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2020, gan nodi y cynhelir cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol ar nos Lun 14 Rhagfyr 2020 i ystyried un eitem.

812. DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GRŴP SIOPA'N LLEOL YN Y BARRI YMGYNGHOROL A GYNHALIWYD AR 22 HYDREF 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol yn Y Barri a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020.

813. DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID, POLISI A DIBENION CYFFREDINOL A GYNHALIWYD AR 16 TACHWEDD 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Polisi a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020, gan nodi y trafodir yr argymhellion sydd ynddynt yn llawn yn Eitem 17.

814. ATODLEN TALU CYFRIFON AR GYFER RHAGFYR 2020

Derbyniodd yr aelodau y rhestr daliadau ar gyfer Rhagfyr 2020 yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £14,641.00.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth ynghylch taliadau cyflog ar gyfer Hydref a Thachwedd 2020, a ardystiwyd ac a awdurdodwyd gan y swyddogion priodol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19(c);**
- 2. Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer Rhagfyr 2020 yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth**

cyfanswm o £14,641.00, ar yr amod fod y papurau perthnasol yn eu lle.

815. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB FEL YR OEDD AR 30 TACHWEDD 2020**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am incwm a gwariant y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21 fel yr oedd ar ddiwedd Tachwedd 2020.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Tachwedd 2020, yn dangos yr union incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis wyth ym mlwyddyn ariannol 2020/21, gan nodi'r gorwariant net o £46,464 ar gyfer 2020/21 fydd yn golygu y caiff swm net o £190,580 ei drosglwyddo o'r gweddillion.

816. **CYLLIDEB DDRAFFT 2021/22 (YN YMGORFFORI RHAGOLWG ARIANNOL PUM MLYNEDD)**

Dywedodd y Prif Swyddog fod y gyllideb ddrafft a baratowyd yn ymgorffori rhagolwg ariannol pum mlynedd er mwyn darparu fframwaith ar gyfer trafod a gwneud penderfyniadau gan Aelodau. Paratowyd y rhagolwg gan swyddogion ac roedd yn bosib y bydd yn newid; y bwriad heno oedd cyfrannu at drafodaeth yn hytrach nac arwain at benderfyniad.

Bydd y Gyllideb Ddrafft a benderfynir heno yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a ddaw i ben ar 31 Ionawr 2021 cyn cyfarfod pennu cyllideb derfynol y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

Dywedodd y Cynghorydd Brooks y bu'n anodd pennu'r gyllideb ar gyfer 2021/22 a diolchodd i swyddogion am eu gwaith yn ei pharatoi. Dywedodd ei bod yn teimlo y bu Cronfa Adferiad Wedi Covid-19 yn llwyddiannus iawn a bod nifer fawr o fusnesau bychain wedi elwa o'r grantiau. Ychwanegodd ei bod yn teimlo fod hyn wedi helpu codi proffil Cyngor Tref Y Barri fel endid gwahanol i Gyngor Bro Morgannwg a'i fod wedi dangos awydd y Cyngor i gefnogi'r gymuned leol.

Cynigiodd y Cynghorydd Brooks y newidiadau canlynol i'r gyllideb ddrafft a gyflwynwyd –

Lleihau Corfforaethol/Hyfforddiant Staff gan £3,500

Lleihau Corfforaethol/Digwyddiadau Corfforaethol gan £1,000

Lleihau Corfforaethol/Hysbysebu Corfforaethol gan £3,250

Lleihau Corfforaethol/Lwfansau Cynghorwyr gan £1,300

Lleihau Prosiectau Arbennig/Prosiectau Dementia Weddus gan £3,000

Lleihau Rhoddion Dinesig/Y Maer gan £250

Cynyddu'r incwm a gyllidebwyd ar gyfer Neuadd Pioneer o £5,000 (1 chwarter) i £10,000 (2 chwarter)

Cynyddu'r incwm a gyllidebwyd ar gyfer Canolfan Gymunedol Dynesfa'r Fynwent o £1,000 (1 chwarter) i £2,000 (2 chwarter)

Byddai'r newidiadau hyn yn arwain at gyllideb ddrafft ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gosod gofyniad praesept darpariaethol o £1,235,686 ar gyfer 2021/22 sef cost i drethdalwr Band D o £59.79 y flwyddyn, cynnydd o 2.3% o gymharu â 2020/21.

Cefnogodd yr Aelodau y newidiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brooks.

Holodd y Cynghorydd Nugent-Finn am yr amserlenni a'r dulliau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog y byddai dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 31 Ionawr 2021 yn caniatáu tua chwe wythnos sef y cyfnod a ganiatwyd ar gyfer ymgynghoriadau ar y gyllideb yn y gorffennol. Dywedodd hefyd y cynhelir yr ymgynghoriad trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan Cyngor Tref Y Barri a thrwy'r wasg leol.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gyllideb ddrafft ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, ac roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid gwneud y newidiadau a gynigiwyd gan y Cynghorydd Brooks i Gyllideb Ddrafft 2021/22.
2. Y dylid cymeradwyo'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gosod gofyniad praesept darpariaethol o £1,235,686 ar gyfer 2021/22 sef cost i drethdalwr Band D o £59.79 y flwyddyn, cynnydd o 2.3% o gymharu â 2020/21.

817. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

PENDERFYNWYD y cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Cyngor Llawn ar nos Lun 22 Chwefror 2021 am 7.00pm.

818. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

Gadawodd y wasg y cyfarfod.

819. **NODI'R CAIS ARIANNOL A WNAED I GRONFA ADFERIAD GWYRDD YR ECONOMI GYLCHOL 2020-21 A GYFLWYNWYD WEDI YMGYNGHORI A'R ARWEINYDDION GRWPIAU (Y DYDDIAD CAU OEDD 1 RHAGFYR 2020)**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Prif Swyddog am baratoi'r cais ariannol hwn o fewn cyfnod byr iawn o amser. Adleisiodd y Cyngorydd S Hodges hyn ac ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai hwn yn brosiect llwyddiannus fyddai'n galluogi'r Cyngor i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi'r Cais Ariannol a wnaed i Gronfa Adferiad Gwyrdd yr Economi Gylchol 2020-21.

820.

DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GWEITHGOR ARLOESI A GYNHALIWYD AR 23 TACHWEDD 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

Dywedodd y Cyngorydd Brooks y cynhaliwyd cyfarfod o'r Gweithgor Arloesi cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ac y cafwyd trafodaeth ar y Polisi Enwi. Er mwyn hwyluso'r broses o fabwysiadu'r Polisi ar Goffáu a Chydnabod, cynigiodd y dylid danfon y polisi drafft at bob Aelod ar ddydd lau 10 Rhagfyr gan ofyn am unrhyw sylwadau neu newidiadau erbyn dydd Gwener 18 Rhagfyr. Dywedodd mai'r nod wrth symud ymlaen fyddai cyflwyno unrhyw geisiadau i Bwyllgor Coffáu a Chydnabod, a fyddai'n cynnwys yr un cydbwysedd gwleidyddol â phob pwyllgor 7 sedd arall, a gofynnodd i'r Arweinyddion Grwpiau gyflwyno eu henwebiadau ar gyfer eu dewis gynghorwyr maes o law.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Gweithgor Arloesi a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020.**
- 2. Y dylid danfon y Polisi Drafft ar Goffáu a Chydnabod at bob Aelod ar ddydd lau 10 Rhagfyr 2020.**
- 3. Y dylai Aelodau ymateb gydag unrhyw sylwadau i'r Prif Swyddog erbyn dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020.**
- 4. Y dylid cytuno a mabwysiadu'r Polisi ar Goffáu a Chydnabod ac unrhyw newidiadau trwy'r broses Gweithredu Brys gyda'r Arweinyddion Grwpiau.**
- 5. Y dylid creu'r Pwyllgor Coffáu a Chydnabod trwy gael enwebiadau gan yr Arweinyddion Grwpiau ac y dylid cynnal ei gyfarfod cyntaf yn gynnar yn 2021.**

821.

DIWEDDARIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhoddodd y Prif Swyddog wybod i'r Aelodau am ddiweddariad a dderbyniwyd oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi'r diweddariad.

822.

YMGYNGHORIAD COED

Derbyniodd yr Aelodau ganlyniadau'r Ymgynghoriad Coed cyhoeddus gan nodi fod y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid Dewis 1 – cael gwared â'r coed Leylandi ac y dylid plannu coed brodorol bychain yn eu lle.

Holodd y Cynghorydd Lloyd Selby am y gyllideb a'r amserlenni a amlinellwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Cytunodd yr Aelodau mai dyma'r cam y dylid ei gymryd, ac fe nodwyd ei bod yn hanfodol fod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r cyhoedd yn y ffordd iawn.

PENDERFYNWYD: Y dylid cael gwared â'r coed Leylandi sy'n ffurfio'r ffin gyda'r Fynwent a Heol Sant Andreas ac y dylid plannu coed brodorol yn eu lle.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm.

Llofnodwyd Dyddiedig

.....

(Maer y Dref)